

# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.11.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Dim.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **11.10.17** fel rhai cywir.  
**Cynnig** – Keith Carroll    **Eilio** – Kevin Goodchild    **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.10.17):**
  - a) **Sion Bryn (Swyddog Gwasanaeth Ieuencid)** wedi cadarnhau, mewn galwad ffôn gyda Geraint Edwards, y bydd yr arian sydd ar ôl o'r Clwb Ieuencid Llwyngwril yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned, i'w wario ar offer i'r Cae Chwarae yn Llwyngwril.
  - b) **Prinder llyfydd parcio yn Llwyngwril** – llythyr wedi ei dderbyn gan y Swyddog Gorfodaeth Parcio, yn dilyn ymweliad safle, gyda Huw Davies a Geraint Edwards, i faes parcio ger Bro Idris, Llwyngwril, yn cadarnhau:-
    - fod trefniadau ar y gweill i ddacluso'r ddau faes parcio yn Llwyngwril, yn Ionawr 2018.
    - y byddai'r adran berthnasol yn cysylltu gyda pherchnogion y ceir sydd heb symud o'r safle ers peth amser.
  - c) **Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn** – Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn manylion cysylltu David Griffiths.
5. **Gohebiaeth:**
  - a) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril:** Cyngor Gwynedd wedi cysylltu i ofyn a yw'r Cyngor Cymuned am gymryd fwy o gyfrifoldeb am y ddarpariaeth neu eu cymryd drosodd yn gyfan gwbl neu os am barhau gyda'r cynllun partneriaethu?  
**Penderfyniad** → parhau gyda'r cynllun partneriaethu am y flwyddyn nesaf - 2018-19 - am £2,000.00.  
Adolygu'r sefyllfa eto blwyddyn nesaf, ac efallai cysylltu â rhai o'r cynghorau cymuned sydd wedi cymryd y toiledau cyhoeddus drosodd yn gyfan gwbl, i weld sut mae'r trefniant yna yn gweithio iddyn nhw.
  - b) **Marie Curie:** llythyr yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol  
**Penderfyniad** → pawb yn gytûn i gefnogi y cais yma = £50.00.    **Cynnig:** Kevin Goodchild    **Eilio:** Geraint Edwards.
  - c) **Gwerthiant Tir ger Maes Parcio Tyn y Buarth, Llwyngwril:** gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â bwriad Cyngor Gwynedd i werthu rhan o dir Tyn y Buarth, ger y maes parcio, gan nad ydynt yn gwneud llawer o ddefnydd o'r tir yma, felly mae o yn weddill i'w hanghenion.  
Cyngor Gwynedd yn hapus i dderbyn unrhyw sylwadau gan y Cyngor Cymuned.  
**Penderfyniad** → llythyr i'w yrru i gadarnhau fod y Cyngor Cymuned eisoes wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol fod prinder llyfydd parcio yn Llwyngwril, yn enwedig maes parcio Tyn y Buarth.  
Gobeithio byddai'r broblem prinder llyfydd parcio ddim yn gwaethygu o ganlyniad i CG werthu'r tir yma.  
Gobeithio na fyddai mynediad newydd yn cael ei greu trwy'r maes parcio i mewn i dir Tyn y Buarth.  
Gobeithio y byddai amodau yn rhwystro neb adeiladu tai ar y safle mae Cyngor Gwynedd am ei werthu.

**6. Materion Cynllunio:**

a) **Rhif Cais: NP5/69/397 – Ael y Bryn, Llwyngwrlil** – adeiladu estyniad ochr  
→ dim sylwadau na gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

b) **Ymgynghoriad / bwriad i godi sied fawr ieir ger Castell Mawr, Llanegryn:**

Derbyniwyd y cynlluniau a'r gwybodaeth perthnasol gan Roger Parry & Partners, a chafodd yr aelodau amser i edrych ar y dogfennau, cyn croesawi Llion Pugh i'r cyfarfod i roi fwy o wybodaeth i'r aelodau ynglŷn â'i bwriad i ymestyn y busnes teuluol. Yn dilyn yr eglurhad a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Llion, daeth yr aelodau i'r penderfyniad unfrydol nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cais arfaethedig yma.

**Penderfyniad** → llythyr i'w anfon i Roger Parry & Partners i gadarnhau hyn.

**7. Adroddiad Ariannol:** Derbyniwyd Adroddiad Mis Hydref 2017 yn gywir.

**Cynnig** – Ian Williams    **Eilio** – Kevin Goodchild    **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- £25.00 – cyfraniad ariannol i'r "Poppy Fund" am y "wreath".
- £50.00 – cyfraniad ariannol i wasanaeth lleol Marie Curie.
- £66.00 – 4 bocs o oleuadau LED newydd i'r Coed Nadolig.

**8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

**9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**

- Louise wedi cadarnhau y bydd yn mynychu Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian, Dydd Gwener 10.11.17, i gefnogi ymholiadau'r Cyngor Cymuned.

E-bost eisoes wedi cael ei anfon gan y Cyngor Cymuned i'w hatgoffa fod y ddau broblem a godwyd yn y cynhadledd diwethaf (03.03.17) yn dal i barhau, ac heb eu datrus .....

1. Diffyg goleuadau ym maes parcio gorsaf Llwyngwrlil
2. Rhwystrau diogelwch/wal derfyn prif ffordd - rhwng Llwyngwrlil a'r Friog.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

- a) Diolch i Keith Carroll am drwsio'r wal o amgylch y Cof Golofn.
- b) Cytunwyd i anfon rhodd daliad o £25.00 i'r "Poppy Fund" am "wreath" erbyn Sul y Cofio.
- c) Keith Carrol i osod y "wreath" yng ngwasanaeth Sul y Cofio.
- d) Cae Chwarae – Huw, David, Malcolm a Geraint i gwrdd yno bore Sadwrn 18.11.17 i dorri'r gwrych/coed.
- e) Emlyn Roberts wedi gaddo Coeden Nadolig i Lwyngwrlil.
- f) Geraint Micah wedi cynnig archebu Coeden Nadolig i Roslefain.
- g) Trefnu i roi'r Coed Nadolig i fyny bore Sadwrn 02.12.17, yn Llwyngwrlil a Rhoslefain.
- h) Geraint Williams wedi cadarnhau fod y 02.12.17 yn gyfleus iddo wneud y gwaith trydanol.
- i) Goleuadau newydd LED wedi eu derbyn – 4 bocs.
- j) Angen archebu bocs i gadw'r ceblau trydanol yn saff o dan ddaear.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 13.12.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan**

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd** ..... **Dyddiad** .....